

Ymateb y Llywodraeth: Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r Llywodraeth yn diolch i'r Pwyllgor ac yn cydnabod y pwyntiau adrodd a godwyd. Er bod y mwyafrif o'r rhain yn bwyntiau golygyddol nad ydynt yn newid gweithrediad nac effaith y Cod, mae rhai materion sydd angen eu hegluro a'u cywiro. Am y rheswm hwn, bydd y Llywodraeth yn tynnu'r Cod Ymarfer diwygiedig drafft yn ôl i ganiatáu amser i'r materion perthnasol gael eu hystyried yn ofalus ac i ddrafft cywiriedig arall gael ei lunio i'w ailosod gerbron y Senedd ym mis Medi.

Mae'r canlynol yn ymatebion i'r pwyntiau craffu a godwyd:

Pwynt craffu 1: Mae adran 146(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi - "Cyn dyroddi neu ddiwygio cod o dan adran 145, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy ynghylch drafft o'r cod (neu'r cod diwygiedig)." Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddarpariaeth hon ac nid yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn addas ymgynghori ag unrhyw bersonau ar yr achlysur hwn o ystyried y graddau y mae'r cynnig yn ceisio diwygio'r Cod presennol.

Mae'r prif ddiwygiad yn golygu ychwanegu cynllun cydnabyddiaeth ariannol a gyflwynwyd yn ddiweddar at y rhestr o fathau o gyfalaf y dylid eu diystyru'n llwyr yn yr asesiad ariannol ar gyfer codi ffioedd am bob math o ofal a chymorth. Mae'r cynllun cydnabyddiaeth ariannol yn gynllun sydd newydd ei gyflwyno ac o gofio bod Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025, sy'n diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 i ychwanegu'r cynllun newydd at y rhestr o gyfalaf i'w ddiystyru, wedi dod i rym ar 7 Ebrill 2025, bydd y diwygiad i'r Cod yn adlewyrchu'r gyfraith sydd mewn grym ar hyn o bryd. Mae awdurdodau lleol felly mewn sefyllfa niwtral. Mae buddiolwyr y cynllun cydnabyddiaeth ariannol yn annhebygol o wrthwynebu'r diwygiad i'r Cod, gan eu bod yn amlwg yn elwa ar y cyfalaf yn cael ei ddiystyru.

O ystyried y rhesymeg hon, yn ogystal â cheisio osgoi rhanddeiliaid yn syrffedu ar y broses ymgynghori mewn amgylchiadau fel hyn, nid yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn addas ymgynghori ag unrhyw bersonau yn yr achos hwn.

Pwynt craffu 2: Cytunir bod diffyg defnydd cyson o dermau diffiniedig, fel y nodir yr adroddiad. Er hynny, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod gan hyn arwyddocâd cyfreithiol i weithrediad y Cod. Cyn ailosod y Cod diwygiedig drafft, gan ddefnyddio'r un rhifau a nodir yn yr adroddiad er hwylustod cyfeirio, gwneir y newidiadau canlynol i'r testun Saesneg:

- i. Ym mharagraffau 1.8 a 1.9, cyfeirir at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel "y *Ddeddf*" fel y'i diffinnir.

- ii. Yn Atodiad D, yn y testun Saesneg, bydd cyfeiriadau at "*deferred payment agreement*" yn cael eu diwygio i "*DPA*" fel y'i diffinnir ym mharagraff 9.2 o'r Cod diwygiedig drafft.
- iii. Teitl Atodiad D yw "*Deferred Payment Agreements*" a chyfeirir at "*agreement*" yng nghyd-destun gwybodaeth sy'n ymwneud â Chytundebau Taliadau Gohiriedig yn unig. Serch hynny, cyn ailosod y Cod diwygiedig drafft, yn lle "*agreement*", megis ym mharagraffau 8.1, 9.1, 9.3 a 9.5 o Atodiad D ac yn y penawdau uwchben paragraffau 10.1 a 11.1 o Atodiad D, rhoddir y term diffiniedig "*DPA*".
- iv. Nid yw'r defnydd cyfnewidiol o "*DPAs*", fel ffurf luosog y term diffiniedig "*DPA*" a "*deferred payment agreements*", ym marn Llywodraeth Cymru, yn creu amwysedd sy'n effeithio ar weithrediad y Cod gan fod gan y ddau yr un ystyr. Fodd bynnag, cyn ailosod y Cod diwygiedig drafft, yn lle pob cyfeiriad at "*deferred payment agreements*" rhoddir "*DPAs*" er cysondeb.
- v. Cyn ailosod y Cod, bydd "2015" yn cael ei hepgor o baragraff 5.1 o Atodiad F i destun Saesneg y Cod diwygiedig drafft.

Bydd y newidiadau cyfatebol yn cael eu gwneud i destun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft fel y bo'n briodol cyn ei ailosod.

Pwynt craffu 3: Nid yw'r math o ffont a ddefnyddir yn newid ystyr y gair hyd yn oed pan fo print trwm yn cael ei ddefnyddio mewn rhai manau er mwyn pwysleisio. Er cysondeb, cyn ailosod y Cod diwygiedig drafft, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried dileu paragraff 1.5 a'r ffont trwm ar gyfer y geiriau "*rhaid*", "*ni chaiff/ni chaniateir*", "*caiff*" a "*dylai/ni ddylai*" a bydd dull cyson yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y testunau Cymraeg a Saesneg.

Pwynt craffu 4: Nid yw'r drefn rifo yn y testun Saesneg yn effeithio ar weithrediad y Cod. Er cywirdeb, cyn ailosod testun Saesneg y Cod diwygiedig drafft, rhoddir y rhifau 1.10 a 1.11 yn lle 1.7 a 1.8 yn y drefn honno (neu unrhyw rifau sy'n ofynnol o ystyried unrhyw newidiadau dilynol i baragraffau).

Pwynt craffu 5: Ym mharagraff 3.4, yn y geiriau agoriadol cyn y pwyntiau bwled, yn lle'r geiriau "*y Ddeddf, y rheoliadau a'r Cod hwn...*" rhoddir "*y Ddeddf, y rheoliadau a wneir o dan Rannau 4 a 5 o'r Ddeddf a'r Cod hwn...*". Yn yr un modd, rhoddir ystyriaeth i'r cyfeiriadau at reoliadau ym mharagraffau 4.1, 2.1 a 3.6 a bydd geiriad yn cael ei gynnwys i gyfyngu ar gwmpas y cyfeiriad at y rheoliadau hynny a wneir o dan y Rhannau perthnasol o'r Ddeddf fel y bo'n briodol. Ym mharagraff 5.6, mae'r cyfeiriad at "reoliadau" yn ymwneud yn benodol â Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 ac felly, bydd y Cod diwygiedig drafft yn cael ei ddiwygio cyn ei ailosod i nodi hyn.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, yn y rhan fwyaf o achosion a amlygir, pan gyfeirir at "reoliadau" yn y Cod diwygiedig drafft, y gwneir hynny yng nghyd-destun naratif rhagarweiniol neu lefel uchel lle nad oes angen enwi rheoliadau yn benodol. Darperir rhagor o fanylion mewn perthynas â'r rheoliadau penodol sy'n gymwys lle bo hynny'n berthnasol mewn manau eraill yn y Cod.

Pwynt craffu 6: Cyn ailosod testun Saesneg y Cod diwygiedig drafft, ym mharagraff 5.1, yn lle *"the Care and Support (Charging) and (Financial Assessment) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2022"* rhoddir *"the Care and Support (Charging) and (Financial Assessment) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2022"*.

Pwynt craffu 7: Yn y cyd-destun y defnyddir y geiriau *"the Ministers"* ym mharagraff 7.2 o destun Saesneg y Cod diwygiedig drafft, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn y gall fod unrhyw amwysedd ynghylch pa Weinidogion y cyfeirir atynt. Cyn ailosod, i fod yn fanwl gywir, ychwanegir *"Welsh"* o flaen *"Ministers"* a defnyddir y geiriad cyfatebol yn y testun Cymraeg.

Pwynt craffu 8: Nid yw hepgor y geiriau *"o'r Cod hwn"* yn y testun Cymraeg yn creu amwysedd ynghylch pa Atodiadau y cyfeirir atynt. Nid yw'r rheoliadau a nodir ym mharagraff 9.1 o'r Cod diwygiedig drafft yn cynnwys Atodiadau. Fodd bynnag, er cysondeb rhwng y testunau, cyn ailosod testun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft, bydd paragraff 9.1 yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r testun Saesneg drwy ychwanegu'r geiriau *"o'r Cod hwn"*.

Pwynt craffu 9: Nid yw'r drefn rifo yn y testun Cymraeg yn effeithio ar weithrediad y Cod. Er cywirdeb, yn lle'r rhif cyfredol ar gyfer y ddarpariaeth ym mharagraff 2.28(g) o Atodiad A i destun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft, sef *"(vx)"*, rhoddir y rhif *"(xv)"*.

Pwynt craffu 10: Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y risg o ddryswch a achosir drwy ddefnyddio geiriad Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015, h.y. cyfeirio at *"A"* fel y person y gwneir taliad iddo o dan y cynllun cydnabyddiaeth ariannol perthnasol, yn fach iawn, yn enwedig o ystyried y cyd-destun y caiff ei ddefnyddio ynddo. I ddileu'r risg fach iawn hon, cyn ailosod y Cod diwygiedig drafft, yn Atodiad A, paragraff 2.28(g)(xxiv), yn lle'r geiriau canlynol: *"Unrhyw daliad a wneir i A gan y Weinyddiaeth Amddiffyn o dan y Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Pobl Lesbïaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol"* rhoddir *"Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Pobl Lesbïaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol y Weinyddiaeth Amddiffyn"*.

Pwynt craffu 11: Yn Atodiad A, paragraff 2.33(g) o destun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft, y bwriad oedd mynegi *"payment"* drwy ddefnyddio *"a delir"*. Mae gwall teipograffyddol yn y gair a ddefnyddir yn y testun Cymraeg drafft, sy'n golygu bod y ffurf *"a ddelir"* yn ymddangos. Cyn ailosod testun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft, yn lle *"a ddelir"* rhoddir *"a delir"* fel bod y testun Cymraeg yn cyfateb i'r testun Saesneg.

Pwynt craffu 12: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod yr adroddiad yn cyfeirio at fater yn Atodiad B o'r Cod diwygiedig drafft, er ei bod yn ymddangos y dylai gyfeirio at fater yn Atodiad A.

Cyn ailosod testun Saesneg y Cod diwygiedig drafft, yn lle'r geiriau *"Grant made under a Housing Act which is to be used by the person to purchase a home or pay for repairs to make the home habitable"* ym mharagraff 3.12(g) o Atodiad A rhoddir *"Grant made*

under section 129 of the Housing Act 1988 which is to be used by the person to purchase a home or pay for repairs to make the home habitable". Bydd y newid cyfatebol yn cael ei wneud i destun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft.

Pwynt craffu 13: Yn Atodiad B, ym mharagraff 2.6(b), cyn ailosod testun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft, yn lle "*o bryd i'w gilydd*" rhoddir "*cyfnodol*" fel y bo'n briodol yng nghyd-destun y testun.

Pwynt craffu 14: Nid yw'r drefn rifo yn y testun Cymraeg yn effeithio ar weithrediad y Cod. Er cywirdeb, yn lle'r rhif cyfredol ar gyfer y ddarpariaeth ym mharagraff 2.6 o Atodiad B i destun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft, sef "*(b)*", rhoddir "*(d)*".

Pwynt craffu 15: Ychwanegir y cysylltair perthnasol at ddiwedd is-baragraff 2.20(e) yn nhestun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft cyn ei ailosod, fel ei fod yn cyfateb i'r testun Saesneg.

Pwynt craffu 16: Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw cyfeirio at "*awdurdod lleol*"/ "*awdurdodau lleol*" ac "*awdurdod*"/ "*awdurdodau*" am yn ail yn debygol o achosi amwysedd yn y cyd-destunau y maent yn cael eu defnyddio ynddynt yn y Cod diwygiedig drafft. Fodd bynnag, cyn ailosod, er mwyn dileu unrhyw risg fach iawn o ddryswch, bydd pob cyfeiriad at "*awdurdod*" ac "*awdurdodau*" yn cael ei newid i "*awdurdod lleol*" ac "*awdurdodau lleol*" yn y drefn honno yn y ddau destun.

Pwynt craffu 17: Yn Atodiad C, ym mharagraff 6.1, cyn ailosod y Cod diwygiedig drafft, bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio drwy ychwanegu "*a rhoi ei reswm/resymau dros hyn*" at ddiwedd y frawddeg berthnasol i fynegi'r ystyr "*and provide its reason(s) for this*" fel bod y testun Cymraeg yn cyfateb i'r testun Saesneg.

Pwynt craffu 18: Yn Atodiad C, ym mharagraff 10.1, cyn ailosod y Cod diwygiedig drafft, bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio drwy ychwanegu'r gair "*ariannol*" ar ôl "*wybodaeth a chynghor*" i fynegi ystyr "*financial information and advice*" fel bod y testun Cymraeg yn cyfateb i'r testun Saesneg.

Pwynt craffu 19: Yn Atodiad D i'r testun Saesneg, bydd pennawd paragraff 2.1 yn cael ei newid i "*To whom DPAs are to be offered*". Ym mharagraff 5.3 o Atodiad D i'r Cod diwygiedig drafft pan ddefnyddir "*those eligible for a deferred payment...*", yn lle "*deferred payment...*" rhoddir "*DPA...*" i egluro bod cyfeiriad yn cael ei wneud at gytundebau taliadau gohiriedig. Bydd y newidiadau cyfatebol yn cael eu gwneud i'r testun Cymraeg.

Pwynt craffu 20: Yn Atodiad D, yn y pwyntiau bwled islaw paragraff 4.3(e), yn lle'r geiriau "*where a spouse or dependent relation (as defined in the Financial Assessment Regulations)...*" a "*...becomes a dependent relative (as defined in the Financial Assessment Regulations)*" rhoddir "*where a spouse or qualifying relative (as defined in the Financial Assessment Regulations)...*" a "*...becomes a qualifying relative (as defined in the Financial Assessment Regulations)*" yn y drefn honno cyn ailosod y Cod diwygiedig drafft. Diffinnir y term "qualifying relative" ("*perthynas cymwys*") yn Atodlen 2 i Reoliadau Gofal a Chymorth

(Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015. Bydd y newidiadau cyfatebol yn cael eu gwneud i destun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft.

Pwynt craffu 21: Defnyddir y ferf "advise" ym mharagraff 5.5 o Atodiad D i'r Cod diwygiedig drafft mewn dwy ffordd wahanol. Mae'r defnydd cyntaf yn cyfeirio at rwymedigaeth y dylai'r awdurdod lleol roi cyngor neu arweiniad i bobl mewn perthynas ag ystyried sut y maent yn bwriadu defnyddio, cynnal ac yswirio eu heiddo, ac mae'r ail ddefnydd o'r ferf yn ymwneud â'r awdurdod lleol yn rhoi gwybodaeth swyddogol, h.y. nodi a yw'n bwriadu gosod unrhyw amodau ar sut y mae'r eiddo yn cael ei ddefnyddio etc. tra ei fod yn destun unrhyw Gytundeb Taliadau Gohiriedig. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr eirfa a ddefnyddir yn y testun Cymraeg felly yn gyson â'r gwahanol ddefnydd o'r gair "advise" yn y testun Saesneg.

Pwynt craffu 22: Cyn ailosod y Cod diwygiedig drafft, ym mharagraff 6.1(b) o Atodiad D i'r testun Saesneg, yn lle "*lessor amount*" rhoddir "*lesser amount*".

Pwynt craffu 23: Er nad yw paragraff 7.3 o Atodiad D i destun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft yn cynnwys yn benodol yr hyn sy'n cyfateb i'r geiriau "*entirely at*" fel y'u defnyddir yn y testun Saesneg, nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno bod hyn yn newid yr ystyr rhwng y ddau destun. Mae ychydig o wahaniaeth o ran pwyslais rhwng y testunau ac felly, cyn ailosod testun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft, mewnosodir y geiriau "*yn llwyr*" ar ôl "*yw hwn*" i fynegi ystyr "*entirely [at]*".

Pwynt craffu 24: Mae testun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft ym mharagraff 10.4(c) o Atodiad D wedi'i grynhoi, ac mae Llywodraeth Cymru yn dadlau bod ystyr y testun Cymraeg yn cyfateb i'r testun Saesneg. Fodd bynnag, cyn ei ailosod, bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio er manwl gywirdeb. Yn lle'r geiriau "*gan gynnwys y broses o derfynu'r cytundeb a chanlyniadau hynny, a pha rybudd y dylid ei roi*" rhoddir "- dylai hyn esbonio'r broses o derfynu'r cytundeb a chanlyniadau hynny, a phennu pa rybudd y dylid ei roi".

Pwynt craffu 25: Cyn ailosod, bydd paragraff 2.1 o Atodiad E i destun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft yn cael ei ddiwygio i ddarllen "*Rheoliadau Adolygu*" lle bo'n briodol i gyfateb i'r testun Saesneg.

Pwynt craffu 26: Cyn ailosod y Cod diwygiedig drafft, ym mharagraff 2.25 o Atodiad E i'r testun Cymraeg, mewnosodir y geiriau "*yn yr awdurdod*" ar ôl "*priodol*" i fynegi ystyr "*of the authority*" fel bod y testun Cymraeg yn cyfateb i'r testun Saesneg.

Pwynt craffu 27: Ym mharagraff 1.3 o Atodiad F, mae ychwanegu "*penderfyniad*" at destun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft yn fater o arddull i alluogi'r frawddeg i lifo. Gan fod y "*non-payment*" y cyfeirir ato yn y testun Saesneg yn "*deliberate*", mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newid y testun Saesneg i gyfateb i'r testun Cymraeg h.y. yn lle "*non-payment*" rhoi "*decision not to pay*".

Pwynt craffu 28: Cyn ailosod y Cod diwygiedig drafft, bydd paragraff 3.1 o Atodiad F i'r testun Saesneg yn cael ei ddiwygio i egluro'r amserlen enghreifftiol ar gyfer cronni dyledion. Yn lle'r geiriau:

“if an invoice was issued giving 30 days to pay, the payment becomes due on day 30 and a debt accrues if this is not met”

rhoddir:

“if an invoice was issued where payment is due on or before 30 calendar days from date of invoice, payment of the invoice becomes overdue at 31 calendar days from date of invoice, and a debt will accrue from that day”.

Bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio i gyfateb i'r testun Saesneg. Yn ogystal, yn lle'r gair "*anfon*" rhoddir "*dyroddi*" i gyfateb i "*issue*" yn y testun Saesneg.

Pwynt craffu 29: Cyn ailosod, yn lle "*derivation*" ym mharagraff 9.2 o Atodiad F i destun Saesneg y Cod diwygiedig drafft rhoddir "*deprivation*" yn unol â'r testun Cymraeg.

Pwynt craffu 30: Bydd paragraff 16.1 o Atodiad F i destun Cymraeg y Cod diwygiedig drafft yn cael ei ddiwygio cyn ailosod i gyfateb i'r testun Saesneg. Yn lle'r geiriau "... *neu effeithio ar fuddiannau'r person hwnnw*" rhoddir "... *neu effeithio ar fuddiannau rhywun sydd am hawlio yn erbyn y person hwnnw*".

Bydd cywiriadau fformadu, teipograffyddol ac arddulliol hefyd yn cael eu gwneud cyn ailosod y Cod diwygiedig drafft.